# Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

## CWLS (2) 06-06 (P2)

### Dyddiad: 23 Mawrth 2006
### Amser: 13.30 pm – 15.50 pm
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd

#### Pêl-Droed Yn Y Gymuned Cpc Cyfyngedig

Cyfraniad Pêl-Droed I Gwrdd Â Sialensau Dringo’n Uwch

#### Rhagair

1. Mae’r papur yma yn disgrifio cenadwri’r Ymddiriedolaeth a’r llwyddiant a gafwyd yn sgîl cwblhau Fforwm Pêl-droed y Cynulliad Cenedlaethol yn 2002. Y mae’n amlygu blaenoriaethau a thargedau’r Ymddiriedolaeth ac yn dangos sut mae nifer o brojectau pêl-droed a arweiniwyd gan bartneriaid allweddol eraill yn cefnogi’r ddarpariaeth o "Dringo’n Uwch", strategaeth chwaraeon Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae’n manylu’r meysydd rheiny ble gallai nawdd a chefnogaeth cynyddol ddod â gwelliannau gwirioneddol i amcanion strategol y cynulliad ar gyfer chwaraeon.

#### Cefndir

2. Sefydlwyd yr Ymddiriedolaeth gan Gymdeithas Pêl-droed Cymru (CPC) yn 1996 i roi ffens derfyn o amgylch nawdd ariannol ar gyfer datblygu ieuenctid. Fe’i gwnaed yn gyfrifol gan CPC am gyfranogiad cynyddol ymhlith bechgyn a merched, gan ddarparu hyfforddiant i hyfforddwyr a gwirfoddolwyr a nodi a datblygu chwaraewyr ifanc dawnus i gefnogi llwyddiant timau cenedlaethol yn y dyfodol. Mae gan yr Ymddiriedolaeth drosiant blynyddol o £1.5m ac yn cyflogi 17 o staff, gyda 12 ohonynt yn Swyddogion Datblygu. Y mae hefyd yn cyfrannu’n ariannol i 14 o swyddi Swyddogion Datblygu ychwanegol trwy bartneriaethau gydag awdurdodau lleol. Mae’n darparu cymorth ariannol ar gyfer 30 o hyfforddwyr ychwanegol, ar sail hunangyflogedig, i gefnogi darpariaeth y rhaglenni datblygu sydd wedi cael eu sefydlu.

#### Nawdd Ariannol

4. Mae’r Ymddiriedolaeth wedi tyfu’n sylweddol ers iddi gael ei chychwyn trwy’r nawdd ariannol cyhoeddus a sicrhawyd ganddi, yn ogystal â’i gweithgareddau nawdd a chodi arian ei hun. Mae’r Cynulliad yn cyfrannu £500,000 y flwyddyn a Chyngor Chwaraeon Cymru yn cyfrannu £275,000 y flwyddyn i raglen waith yr Ymddiriedolaeth. Mae CPC yn cyfrannu £120,000 y flwyddyn a £10,000 y

flwyddyn yn ychwanegol yn benodol ar gyfer archwiliadau’r Academi o glybiau Cynghrair Cyntaf Cymru i gwrdd â gofynion rhaglen Trwydded Glybiau UEFA. Mae’r Ymddiriedolaeth yn codi £650,000 y flwyddyn arall trwy nawdd a chodi arian (£250,000), grantiau ychwanegol (£140,000, gan gynnwys rhodd gan Brif Gynghrair y Gymdeithas Bêl-droed) a gweithgareddau addysg hyfforddwyr (£260,000).

## Llywodraeth

5. Mae’r Bwrdd Rheoli yn cynnwys 14 aelod. Enwebir saith o Ymddiriedolaethwyr gan CPC tra bod saith yn cael eu recriwtio’n unigol trwy hysbysebu’n agored. Dros y 12 mis diwethaf, mae’r Ymddiriedolaeth wedi adolygu ei Memorandwm a’i Herthyglau Cymdeithas er mwyn sicrhau ei bod yn moderneiddio a gwella ei llywodraeth gorfforaethol, yn gweithredu’n effeithiol ac wedi cwrdd â’r amcanion elusennol dan y rheiny y cafodd ei sefydlu. Mae’r Ymddiriedolaeth wedi llwyddo i ymgorffori pob un o’r argymhellion a restrwyd mewn dau adroddiad archwilio annibynnol a gomisiynwyd gan Gyngor Chwaraeon Cymru ym mis Chwefror 2001 a mis Gorffennaf 2002 ac erbyn hyn y mae wedi’i chadarnhau fel mudiad ‘addas i bwrpas’ ar gyfer nawdd ariannol cyhoeddus. Yn dilyn ymweliad adolygu gan y Comisiwn Elusennau yn ddiweddar, cyhoeddwyd yr Ymddiriedolaeth yn holliach. Dylid nodi hefyd fod yna erbyn hyn berthynas gynyddol gadarnhaol a chynhyrchiol rhwng yr Ymddiriedolaeth a CPC.

## Strategaeth

6. Mae pêl-droed yn arf bwerus ar gyfer cyfranogiad, iechyd cymunedol a mentrau cynhwysiad cymdeithasol. Mae gan bêl-droed y gallu i fynd i’r afael â a mynd tu hwnt i raniadau yn ein cymdeithas a chynnwys cymunedau amrywiaethol Cymru mewn ffordd na all unrhyw gêm arall. Amlygir statws y gêm gan ei phroffil cyfryngol anferth, tra bod ystadegau cyfranogiad yn profi ei bod yn fwy poblogaidd nag unrhyw gêm arall yng Nghymru. Mae’r Ymddiriedolaeth wedi cydnabod hyn o fewn ei chynlluniau ar gyfer y dyfodol, gan groesawu’r agendâu newydd a hyrwyddir gan amcanion allweddol "Dringo’n Uwch". Mae blaenoriaethau’r Ymddiriedolaeth yn ystod y pum mlynedd nesaf yn cynnwys:

hyrwyddo cyfranogiad gweithredol trwy ddarpariaeth gwricwlaidd ac allgyrsiol o fewn Ysgolion cynradd ac uwchradd;

- datblygu aelodaeth o glybiau iau (gan ganolbwyntio’n benodol ar ferched), a thrwy ddatblygu partneriaethau gyda Chymunedau yn Gyntaf, Grwpiau Hybu Iechyd a chymunedau Duon a Lleiafrifoedd Ethnig;
- prif-ffrydio’r iaith Gymraeg o fewn darpariaeth rhaglenni a chyhoeddusrwydd cysylltiedig trwy gefnogaeth Swyddog Datblygu Iaith Gymraeg Cymdeithas Pêl-droed Cymru ac Urdd Gobaith Cymru;
- darparu hyfforddiant technegol a galwedigaethol a fydd yn cefnogi datblygiad hyfforddwyr a gwirfoddolwyr, tra hefyd yn cyfrannu at gyfuniad sgiliau gweithwyr newydd ar gyfer y diwydiant chwaraeon a hamdden;
- gwneud defnydd o ddatblygiadau mewn technoleg, y rhyngrwyd yn arbennig, i ddyfeisio

adnoddau dysgu rhyngweithiol er mwyn cefnogi darpariaeth rhaglenni hyfforddi;
- cyfrannu at y targed o gael timau pêl-droed dynion a merched Cymru i gyrraedd safle cynaliadwy o fewn 24 uchaf y byd, trwy nodi a datblygu chwaraewyr dawnus a rhaglenni hyfforddi a chystadleuol y carfannau Datblygiad Cenedlaethol.

## Targedau Allweddol

7. Mae targedau allweddol yn strategaeth yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2006 hyd at 2010 yn cynnwys:

- cynyddu aelodaeth clybiau ar gyfer bechgyn i 40,829 (twf o 5%) ac ar gyfer merched i 9,616 (twf o 400%);
- sefydlu 450 o dimau merched newydd (twf o 57%);
- cynorthwyo 22 o glybiau i gyflawni'r meini prawf chwaraeon ar gyfer Trwydded Glybiau UEFA;
- hwyluso datblygiad 60 o dimau newydd a chwe strwythur cystadleuaeth ar gyfer chwaraewyr anabl;
- trefnu 4,000 o gyfleoedd hyfforddi ar gyfer hyfforddwyr a gwirfoddolwyr;
- cefnogi datblygiad chwaraewyr benywaidd ar gyfer carfan dan 19 CPC fel ei bod yn cyrraedd safle cyson yn neg uchaf UEFA;
- cynorthwyo 35 o chwaraewyr ychwanegol o'r Garfan Datblygiad Cenedlaethol dan 16 i sicrhau ysgoloriaethau proffesiynol;
- cefnogi datblygiad bechgyn ar gyfer carfannau Canolradd CPC – un garfan i fod yn gymwys ar gyfer gêm derfynol Pencampwriaeth UEFA ac i gyrraedd safle o fewn y 12 uchaf.

## Llwyddiannau Allweddol

8. Mae'r llwyddiannau yn cynnwys:

- enillodd y Garfan Datblygiad Cenedlaethol dan 16 y Darian Fuddugoliaeth ar y cyd ym mis Tachwedd y llynedd. Roedd deugain o fechgyn o'r garfan Datblygiad Cenedlaethol wedi cyflawni ysgoloriaethau gyda Chanolfannau Rhagoriaeth ac Academïau mewn clybiau proffesiynol yn ystod y tair blynedd diwethaf ac mae 35 o ferched wedi symud ymlaen i garfan dan 19 CPC, sydd erbyn hyn yn neg uchaf Ewrop;
- mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu Rhaglen Addysg Hyfforddwyr o safon ryngwladol. O ganlyniad i hyn mae CPC yn llofnodwyr llawn i Gonfensiwn UEFA ar gyfer Cydnabyddiaeth Gydfuddiannol o Gymwysterau Hyfforddi, gan ganiatáu i gymwysterau Cymreig gael eu cydnabod ledled Ewrop. Roedd Cymru yn un o'r 16 cenedl cyntaf i gyflawni hyn ac yn un o ddim ond pum cenedl i fod wedi cael ailddilysiad dan delerau'r Confensiwn. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, darparwyd dros bedair mil o gyfleoedd hyfforddi ar gyfer hyfforddwyr a gwirfoddolwyr;
- mae cyfranogiad ymhlith bechgyn wedi cynyddu 4% i 38,855 o chwaraewyr cofrestredig. Mae cyfranogiad ymhlith merched wedi cynyddu 300% yn ystod yr un cyfnod. Erbyn hyn mae yna dros 3,000 o chwarawyr benywaidd cofrestredig yng Nghymru. Mae 338 o dimau merched

newydd wedi cael eu sefydlu yn ogystal â 15 cynghrair newydd;

- mae 638 o ysgolion wedi’u cofrestru ar gyfer y Cynllun Achredu Ysgolion gyda 440 o ysgolion yn cyflawni’r safon meincnod.
- Mae 470 o glybiau wedi’u cofrestru ar y Cynllun Achredu Clybiau ac wedi derbyn cefnogaeth gyfredol gan ein rhwydwaith o Swyddogion Datblygu Pêl-droed Sirol.

### Cefnogaeth ar gyfer y Dyfodol

9. Mae pêl-droed yn chwarae rhan bwysig wrth gynorthwyo’r Cynulliad i gwrdd â nodau ac amcanion allweddol o fewn fframwaith strategol "Dringo’n Uwch". Amlygir hyn yn llwyddiannau’r Ymddiriedolaeth hyd yma a’n cynlluniau ni ar gyfer y dyfodol. Yn amlwg, yr unig ffordd i gynnal cynnydd yw trwy’r gefnogaeth a’r adnoddau sydd ar gael. Gobeithiwn fod y Cynulliad Cenedlaethol yn croesawu ein cyraeddiadau ac yn cydnabod y potensial ar gyfer mwy o lwyddiant yn y dyfodol. Mae nawdd ariannol hirdymor ychwanegol a phendant yn hanfodol, nid yn unig er mwyn sicrhau dyfodol yr Ymddiriedolaeth ond hefyd er mwyn twf a ffyniant pêl-droed yng Nghymru.

**FAW F in the C Ltd**
**28 Chwefror 2006**

# Atodiad

## Enghreifftiau O Gyfraniad Ehangach Pêl-Droed I Ddarparu Amcanion Dringo’n Uwch

Prif rôl yr Ymddiriedolaeth yw annog mwy o bobl ifanc i ddatblygu mwynhad cydol oes o’r gêm a chynnig cyfleoedd i chwaraewyr dawnus gyflawni eu potensial. Fodd bynnag, mae’r enghreifftiau canlynol yn dangos sut mae’r Ymddiriedolaeth a phartneriaid allweddol eraill wedi cyflawni, trwy bêl-droed, amcanion cymdeithasol ehangach sy’n cefnogi darpariaeth "Dringo’n Uwch".

### Cyfranogiad gweithredol

- Mae’r Ymddiriedolaeth wedi datblygu cynllun achredu i ysgolion yn gosod meincnodau ar gyfer darpariaeth gwricwlaidd ac allgyrsiol, tra’n darparu’r hyfforddiant a’r gefnogaeth angenrheidiol er mwyn athrawon a gwirfoddolwyr gyflawni achrediad. Gyda’r meincnodau yn canolbwyntio ar ddarpariaeth deg, mae cynnydd dramatig mewn gweithgaredd benywaidd wedi cael ei ddarparu gyda dros 300 o glybiau ar ôl ysgol i ferched yn cael eu ffurfio.

### Aelodaeth Clwb Iau

- Mae cynllun achredu’r Ymddiriedolaeth i glybiau wedi ychwanegu at sylfaen y fenter ysgolion trwy annog clybiau cymunedol i godi safonau darpariaeth a sefydlu cysylltiadau gydag ysgolion

lleol. Mae’r meincnodau teg a sefydlwyd o fewn y cynllun ysgolion hefyd wedi bod o fudd sylweddol i’r gêm fenywaidd. Gellir amlygu hyn gyda phroffil aelodaeth Cynghrair Merched De Cymru, sydd ar ei ben ei hun wedi cynyddu aelodaeth o oddeutu 1,000 o chwaraewyr yn ystod y tair blynedd diwethaf.

## Cynhwysiad Cymdeithasol

- Mae’r Ymddiriedolaeth yn gweithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Dinas Caerdydd er mwyn cael mwy o bobl ifanc o grwpiau BME i chwarae pêl-droed. Bydd project dechreuol yn canolbwyntio ar ddatblygu Cynghrair Futsal (pêl-droed dan do ac ochrau bychain) dan nawdd Cymdeithas Bêl-droed De Cymru.
- Mae Cynghrair Iau Rhyl a’r cylch wedi datblygu Rhaglen Barch sy’n anelu i wella safonau ymddygiad a chwarae teg ymhlith pobl ifanc. Mae chwaraewyr yn gwisgo bandiau garddwrn wedi’i gwneud yn arbennig i’w hatgoffa nhw o’u hymrwymiad a chyflwynir gwobrau i chwaraewyr a thimau sy’n arddangos sbortsmonaeth da.
- Mae’r Ymddiriedolaeth a Chymdeithas Genedlaethol Frenhinol y Deillion wedi datblygu project ar gyfer cyfranogwyr gyda nam golwg trwy gefnogaeth y Sefydliad Pêl-droed a CP Dinas Abertawe. Mae’r fenter wedi canolbwyntio ar sefydlu cyfleoedd chwarae rheolaidd ar gyfer chwaraewyr ifanc â nam golwg trwy ddatblygu strwythurau cystadlu priodol. Mae’r gwaith wedi dechrau ar ehangu’r fenter hon yng Nghaerdydd, Sir Fôn a Gwynedd.

## Atal Troseddu

- Mae CP Tref Caerfyrddin yn darparu rhaglen addysg i griw o droseddwyr ifanc, gyda llawer ohonynt atebol i Orchmynion Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol. Mae’r rhaglen yn ceisio gwella datblygiad personol a chymdeithasol a gwobrwyo presenoldeb a chynnydd gyda gweithgareddau chwarae a hyfforddi.
- Mae’r Ymddiriedolaeth wedi hyfforddi Swyddogion o Heddlu De Cymru i’w cynorthwyo i ddarparu rhaglen hyfforddi gymunedol ym Mwrdeistref Sirol Penybont-ar-Ogwr. Ynghyd â gweithgareddau ystafell ddosbarth, mae’r fenter wedi cynorthwyo Swyddogion i wella eu rhwydwaith gyfathrebu ac wedi arwain at ostyngiad dramatig mewn fandaliaeth.

## Dysgu Gydol Oes

- Mae CP Dinas Caerdydd wedi darparu cwricwlwm amgen i ddisgyblion sydd wedi’u heithrio o ysgolion lleol. Yn seiliedig ar ystafell ddosbarth bwrpasol ym Mharc Ninian, mae’r disgyblion yn ymgymryd â rhaglen a gynlluniwyd i ddatblygu sgiliau galwedigaethol allweddol a helpu eu hymdrechion i gael gwaith. Fel gwobr am bresenoldeb rheolaidd mae pobl ifanc yn cael y cyfle i gyfarfod chwaraewyr y Clwb a chael hyfforddiant rheolaidd.

## Defnyddio Technoleg

- Mae Ymddiriedolaeth y Cambrian Village wedi datblygu menter hyfforddi gymunedol sy’n cefnogi darpariaeth allgyrsiol mewn ysgolion cynradd lleol ac yn cynnal darpariaeth y cwricwlwm prif ffrwd. Gyda phartner technegol, mae’r Ymddiriedolaeth Gambriaidd wedi cynhyrchu CD Rom ryngweithiol sy’n cefnogi datblygiad sgiliau rhifol a llythrennedd sylfaenol trwy gyfrwng pêl-droed. Yna mae hyfforddwyr a gyflogir gan yr Ymddiriedolaeth yn rhoi hyfforddiant i ddisgyblion ac yn annog cyfranogiad gweithredol trwy gysylltiadau â chlybiau lleol.

## Yr Iaith Gymraeg

- Mae Ymddiriedolaeth CPC wedi gweithio mewn partneriaeth gydag Urdd Gobaith Cymru i brif-ffrydio’r iaith Gymraeg o fewn ei gwobrau hyfforddi. Mae’r Urdd wedi dynodi staff allweddol i fynychu cyrsiau hyfforddi’r Ymddiriedolaeth i ddarparu cyrsiau hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg ac wedi rhoi cefnogaeth i gyfieithu deunyddiau adnawdd.